


PRYDAU YSGOL TORFAEN

Y Trywydd ar gyfer Siwrnai at Gynaliadwyedd 2023/24



Aiddosbarthu Bwyd Sydd Dros Ben

Mwy o Opsiynau Ailgylchu

Gwastraff o'r Gegin

Gwastraff o'r Plât

Lleihau Pecynnau Untro

Taclo Gwastraff Bwyd

Lleihau Gwastraff

Newidiadau cyfrifol i'r dewisiadau ar y fwydlen

Darparu Bwydydd lach dros wyliau'r haf

Iechyd a lles disgyblion

Cydymffurfio â safonau maeth ysgolion

Mwy o ddisgyblion yn cael prydau ysgol

Lleihau ôl troed / allyriadau carbon y gwasanaeth

Arbedion wedi'u Targedu trwy effeithlonrwydd ynni a'r defnydd o ddŵr

Gwario mwy o arian yn lleol gan gyfrannu at yr economi lleol

Mwy o fwydydd Cymreig neu fwydydd lleol ar y fwydlen

Staff lleol yn gwario arian yn lleol


Cefnogi pysgota cynaliadwy

Buddsoddi yn sgiliau a chymwysterau staff

Cefnogi Sgiliau Coginio lach mewn Ysgolion

Diogelu'r gwasanaeth ar gyfer y dyfodol

Blaenoriaethu Iechyd a Lles Cyflogaion



Mapio ein Taith Gynaliadwyedd 2023/24

Tryloywder mewn Targedau a Chyflawniadau

Gall penderfyniadau sy'n cael eu gwneud heddiw gael effeithiau hirdymor cadarnhaol, (neu negyddol) i'n disgyblion a'r gymuned ehangach. Cynaliadwy. Mae Arlwy mewn Ysgolion yn ymwneud â diwallu anghenion disgyblion heddiw heb niweidio cyfleoedd ar gyfer y dyfodol.

Nid yw cynaliadwyedd mewn arlwy mewn ysgolion yn mynd i fod yn ateb cyflym. Mae'n bwnc

ENFAWR. Ond rydym ni'n wydn ac mae gennym ni ffocws, ac rydym ni wedi ymrwymo i'r daith hirdymor. Fodd bynnag, mae angen i ni fod yn dryloyw yn yr hyn rydym ni'n ei wneud, gyda thargedau a chyflawniadau gwirioneddol a diriaethol ystyrlon (flwyddyn ar ôl blwyddyn). Dyma'r map ar gyfer 2023 a 2024 a byddem yn croesawu eich awgrymiadau ar gyfer targedau pob blwyddyn.

Gallwch ddilyn y daith hon yn ein "Map Taith Cynaliadwyedd"



Lleihau allyriadau carbon y Gwasanaeth

Oeddech chi'n gwybod bod y Cyngor wedi datgan argyfwng hinsawdd? Er mwyn ymateb i'r argyfwng hinsawdd, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddod yn garbon sero net erbyn 2030. Mae hyn yn golygu datgarboneiddio ein cerbydau a sut rydym ni'n teithio, newid sut rydym ni'n cynhesu ac yn pweru ein hadeiladau a lleihau effaith carbon y nwyddau a'r gwasanaethau rydym ni'n eu prynu.

Yn ffodus i ni ym maes arlwyio mewn ysgolion, mae tîm o ymchwilyr sy'n gweithio ar draws 5 gwlad Ewropeaidd wedi bod yn gweithio'n benodol ar leihau allyriadau carbon yn y sector prydau ysgol. Rydym ni wedi bod yn ymgysylltu ag athro'r DU yn y tîm hwn i sicrhau bod unrhyw newidiadau a wnawn yn ystyrlon, nid yn symbolaidd. Mae'r tîm ymchwil wedi tynnu sylw at ddau faes allweddol i'w targedu — gwastraff bwyd a dewisiadau bwydlenni cyfrifol. Dangosir bod y rhain yn cynnig y gostyngiadau mwyaf posibl mewn allyriadau carbon mewn prydau ysgol. Fodd bynnag, byddwn hefyd yn targedu meysydd eraill — gan gynnwys chwilio am gyfleoedd i gynyddu faint o fwyd Cymreig neu fwyd lleol sydd ar ein bwydlenni. Byddwn yn parhau i ddilyn gwaith tîm ymchwil Ewrop yn agos i sicrhau bod y newidiadau a wnawn yn cael yr effaith fwyaf ystyrlon.



Mwy o wariant lleol sy'n cyfrannu at yr economi leol

Mae mwy o wariant lleol yn cadw arian yn y gymuned leol - sy'n cael ei alw hefyd yn adeiladu cyfoeth cymunedol. Gall effaith cyrchu/caffael bwyd yn lleol yn ogystal â chyflogi staff arlwyyo lleol sy'n gwario yn yr ardal leol ddod â buddion eang i les economaidd a chymdeithasol yn sgil yr effaith luosydd.

Mae angen i ni ystyried y ddau faes.



Cefnogi Pysgota Cynaliadwy

Ein taith hyd yma

We understand that seafood is one of the world's valuable resources. We know that all our frozen fish – fishcakes, fish fingers and battered fish is Marine Stewardship Council (MSC) certified so we are confident that it comes from sustainable sources.

Targed/Nod/Cam Gweithredu ar gyfer 2023/2024

Rydym ni hefyd yn defnyddio tiwna tun yn ein hysgolion. Nid yw hyn wedi'i farcio fel ardystiad MSC. Byddwn yn archwilio opsiynau i newid ein tiwna tun i diwna o ffynonellau mwy cynaliadwy gyda'n cyflenwyr.

Cynydd/ Cyflawniad hyd yn hyn yn 2023/24

Mawrth 2023 - Mae trafodaethau'n parhau gydag MSC a'n cyfanwerthwr ynghylch tiwna amgen addas. Gwiriwch yn ôl yn nes ymlaen am ddiweddiariad...



Diogelu'r gwasanaeth ar gyfer y dyfodol

Rhaid i ni sicrhau ein bod ni'n denu ac yn cadw talent leol. Rydym ni'n credu y gallwn ni wneud hyn drwy ganolbwyntio ar ddau faes — buddsoddi mewn sgiliau a chymwysterau staff a thrwy flaenoriaethu iechyd a lles staff.

Rhaid i ni hefyd sicrhau ein bod ni'n cynnal neu'n cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar brydau ysgol fel bod y gwasanaeth yn ddiogel yn y dyfodol.

Mae angen i ni ystyried yr holl feysydd hyn.



Lleihau Gwastraff

Bydd elfen o wastraff bob amser — mae hyn yn ôl-gynnyrch arlwyyo, OND mae lleihau gwastraff yn bwysig

- 1) am resymau ariannol — po leiaf o wastraff mae ein gwasanaeth yn ei gynhyrchu, y mwyaf o arian sydd gennym ni i'w wario ar gynhwysion bwyd a bwydlenni o safon
- 2) ar gyfer yr amgylchedd a'n hól troed carbon. Mae cynhyrchu bwyd yn defnyddio adnoddau tir, dŵr ac ynni sylweddol, ac amcangyfrifir bod gwastraff bwyd yn cyfateb i 8-10% o allyriadau nwyon tŷ gwydr a wneir gan ddyn. Mae'r angen amgylcheddol i leihau gwastraff bwyd wedi'i gofnodi'n dda.

Mae hwn yn bwnc ENFAWR.



Hybu Iechyd a Lles Disgyblion

Mae pryderon wedi'u dogfennu'n dda ynghylch nifer y disgyblion sydd dros bwysau ac yn ordew. Yn ogystal, mae tuedd ar i fyny sy'n peri pryder yn nifer y disgyblion sy'n dod o gartrefi sy'n dioddef o dlodi bwyd/ansicrwydd bwyd.

Mae diet gwael yn gysylltiedig ag anghydraddoldebau iechyd.

Gall Arlwyio mewn Ysgolion gyfrannu at sicrhau bod gan ddisgyblion ddietau cytbwys iach ac yn datblygu arferion bwyta da ar gyfer y tymor hwy.



Darpariaeth Bwyd Iach dros wyliau'r haf

Ein taith hyd yma

Ers blynnyddoedd bellach, mae Arlwywyr Ysgol Torfaen wedi ymuno â Chwarae Torfaen yn eu Gwersylloedd Chwerthin, Dysgu + Bod yn Egniol a gynhelir yn ystod gwyliau'r haf. Yn gweini brecwast iach RHAD AC AM DDIM a chinio iach RHAD AC AM DDIM, mae'r ddarpariaeth hon wedi lliniaru effaith tlodi bwyd yn yr ardal leol. Mae'r cynllun hefyd wedi darparu gweithgareddau gwell i ddisgyblion lleol yn yr hafau hir.

2017 2 ysgol 2730 o brydau bwyd wedi'u gweini

2018 4 ysgol 2233 o brydau bwyd wedi'u gweini

2019 5 ysgol 6294 o brydau bwyd wedi'u gweini

2021 14 ysgol 32416 o brydau bwyd wedi'u gweini

2022 14 ysgol 32746 o brydau bwyd wedi'u gweini



Targed/Nod/Cam

Gweithredu ar gyfer 2023/24

Rydym ni'n credu bod hwn yn gofnod eithaf rhyfeddol. Gan fod angen seibiant ar ein staff hefyd dros wyliau'r haf rydym ni'n credu ein bod ni wedi cyrraedd y capasiti ar gyfer cynnig y gwasanaeth hwn. Ein nod yw cynnal yr un nifer o ysgolion a disgyblion sy'n elwa o'n gwaith yn y maes hwn.

Cynydd/Cyflawniad hyd yn hyn 2023

Mawrth 2023 - Mae cynlluniau wedi hen ddechrau ar gyfer rhaglen Haf lwyddiannus arall — mae 15 ysgol isoos wedi cadarnhau eu bod yn rhedeg eleni - edrychwch yn ôl yma yn nes ymlaen am ddiweddariad...



Cynyddu'r gyfradd sy'n manteisio ar brydau ysgol

Ein taith hyd yma

Ni wnaeth ymchwil a wnaed gan Brifysgol Leeds greu darlun cadarnhaol o gynnwys maethol pecynnau bwyd yn erbyn prydau ysgol, gyda llai na 2% o becynnau bwyd yn cwrdd â safonau prydau ysgol. A gyda lefelau a gofnodwyd o Fitamin C, Fitamin A a sinc yn gwaethygu dros y blynyddoedd. Rydym ni angen mwy o ddisgyblion i fanteisio ar y cynnig o brydau ysgol.

Gallwn ond gwneud hyn os ydym ni'n GWRANDO AR EIN CWSMERIAID.

Rydym ni'n gofyn yn rheolaidd am adborth gan ein disgyblion ar ddewisiadau bwydlenni ac mae dyfyniadau uniongyrchol gan ddisgyblion ar gyfer pob pryd yn cael eu hamlygu ar ein gwefan wrth ymyl y prydau. Fe wnaethom gyfarfod â Chyngor Ysgol Disgyblion Garnteg, yn y llun, i gael eu hadborth gonest.



Targed/Nod/Cam Gweithredu ar gyfer 2023/24

Byddwn yn archwilio llwybrau ychwanegol ar gyfer adborth gan ddisgyblion gan gynnwys trwy ein prosiect Waste Warriors yn ogystal ag arolygon rheolaidd gan ddisgyblion. Byddwn hefyd yn edrych ar y diwylliant bwyd ehangach mewn ysgolion — ar ôl cyflwyno Prydau Ysgol Am Ddim Cynradd Cyffredinol (a'r nifer ehangach a ragwelir fydd yn manteisio arno), byddwn yn ail-werthuso p'un a yw'r amser a ganiateir ar gyfer egwyl ginio yn ddigonol i bob disgybl gael cinio iach. A p'un a yw'r ardal fwyta yn amgylchedd hamddenol gyda dŵr yfed am ddim yn hygyrch i bawb?

Cynydd/Cyflawniad hyd yn hyn yn 2023/24

Mawrth 2023 - Mae adborth eisoes yn dod drwodd gan ddisgyblion sy'n cymryd rhan yn ein Cystadleuaeth Wate Warriors. Rydym ni hefyd wedi bod yn gweithio'n agos gyda Nesta, asiantaeth arloesi cymdeithasol y DU i'w cynorthwyo i gynllunio astudiaeth i ddeall materion gyda phobl nad ydynt yn cymryd rhan o safbwynt disgyblion gyda'r bwriad o wella hyn.



Cefnogi Sgiliau Coginio Iach mewn Ysgolion

Ein taith hyd yma

Mae ein dietegydd wedi cael rhywfaint o lwyddiant yn y gorffennol yn rhedeg Clybiau Coginio ar ôl Ysgol yng Nghoed Eva a Blenheim Road, gyda Chogyddion Coed Eva yn cyrraedd rownd derfynol Cystadleuaeth genedlaethol Tîm Pobi Ifanc y Flwyddyn yn 2017. Ond ni all hi fod ym mhobman. Fodd bynnag, mae hi wedi bod yn cefnogi'r ysgolion hynny sy'n rhedeg Clybiau Coginio ar ôl Ysgol, yn fwyaf diweddar yn ysgol gynradd Padre Pio.



Targed/Nod/Cam Gweithredu ar gyfer 2023/24

Gwahoddir Eco Bwyllgorau Ysgolion i gymryd rhan yn y prosiect "Waste Warriors" (gweler gwastraff platau) am gyfle i ennill sesiwn coginio iach diwrnod llawn ar gyfer 16 o ddisgyblion. Y gobaith yw y bydd y wobr hon yn ennyn diddordeb yn y maes hwn, a byddwn yn parhau i gynnig cefnogaeth i unrhyw ysgol gynradd sydd am gynnig Clybiau Coginio ar ôl Ysgol (gyda chyfranogiad rhieni os yw'n well gan ysgolion).



Cynydd/Cyflawniad hyd yn hyn yn 2023/24

Mawrth 2023 — mae ysgolion yn cofrestru ar gyfer Waste Warriors a chyfle i ennill sesiwn coginio iach diwrnod llawn... diweddariadau i ddilyn...



TORFAEN
COUNTY
BOROUGH



BWRDEISTREF
SIROL
TORFAEN

Newidiadau Cyfrifol i Ddewisiadau'r Ddewislen

Ein taith hyd yma

Rydym ni bob amser wedi cynnig bwydlen llysiuol boeth lawn a bwydlen pysglysieuol poeth lawn ar gais. Mewn prydau nad ydynt yn cynnwys cig, rydym ni'n defnyddio bwydydd planhigion sy'n llawn haearn fel sbigoglys a chynhwysion sy'n llawn Fitamin C fel pupurau a phys ochr yn ochr i gynnig yr amsugniad haearn mwyaf posibl. Lle mae angen dewisiadau amgen i laeth ar gyfer y rhai sy'n dilyn bwydlen seiliedig ar blanhigion neu ar gyfer y rhai sydd ag alergedd/anoddefiad i laeth buwch, rydym ond yn defnyddio dewisiadau amgen sydd wedi'u cyfnerthu â'r un lefel o galsiwm â llaeth buwch.

Targed/Nod/Cam Gweithredu ar gyfer 2023/24

O Pasg 2023 bydd o leiaf hanner ein dewisiadau bwydlen yn llysiuol - nid oes angen ymrwymo'n llawn i fwydlen llysiuol ar wahân, gall disgyblion optio i mewn ac allan. Byddwn hefyd yn cynyddu opsiynau sy'n seiliedig ar blanhigion yn ein Ysgolion Cyfun.

Rydym yn gwybod y gall cynhyrchu olew palmwydd gynyddu'r risg o ddinistrio fforestydd glaw trofannol a draenio mawndir. Gall hyn yn ei dro gael effaith negyddol ar fioamrywiaeth, newid yn yr hinsawdd a hawliau tir pobl leol. Am y rheswm hwn, mae llawer o gyflenwyr eisoes wedi ymrwymo i ddefnyddio olew palmwydd 100% o ffynonellau cynaliadwy yn unig erbyn 2015. Byddwn yn edrych ar y cynnydd gyda'n holl gyflenwyr sy'n defnyddio olew palmwydd fel cynhwysyn yn eu cynhyrchion.

Cynydd/Cyflawniad hyd yn hyn yn 2023/24

Mawrth 2023 - Rydym ni'n gwybod nad yw pob dewis amgen o ran cig yr un mor gyfeillgar i'r amgylchedd - rydym ond yn bwriadu cynnig cynhyrchion wedi'u gwneud â soia o'r UE sy'n tyfu mewn ardaloedd amaethyddol presennol, sefydledig, ac rydym ni mewn trafodaethau gyda chyflenwr protein sy'n seiliedig ar blanhigion (pys) yn y DU fel ffynhonnell brotein amgen yn ein prydau heb gig. Mae'r ddau yn opsiynau y gellid eu defnyddio mewn ryseitiau i alluogi lleihau'r cynnwys cig mewn prydau. Mae'r 1af o 3 diwrnod blasu bwyd yn seiliedig ar blanhigion eisoes wedi cael ei gynnal yn Ysgol Gyfun Gwynllw, gyda'r disgyblion yn hoff iawn o'r sesiynau blasu! Mawrth 2023 — Mae treial ar gyfer Bar Pasta lach yn mynd rhagddo yn Ysgol Panteg. Y gobaith yw, os yw'r dewisiadau yn boblogaidd, y gallai fod yn ddewis mwy cyfrifol i'r bar salad presennol yr adroddir ei fod yn cynhyrchu gwastraff platiau diangen gyda rhai bwydydd yn cael eu gadael heb eu bwyta.



Safonau Maeth

Ein taith hyd yma

Deietau sy'n wael o ran maeth yw'r achos mwyaf o farwolaeth gynamserol ac anabledd yn y DU.

Ers 15 mlynedd bellach, mae Arlwyio Ysgolion Torfaen wedi cyflogi deietegydd i sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau Bwyta'n lach mewn Ysgolion yng Nghymru. Rydym ni'n cael ein graddio fel rhai sydd â bwydlenni Safon Aur.

Beth allwch chi ei weld eisoes yn ein hysgolion -

Ffrwythau bob dydd, Llysiau a/neu salad bob dydd, Pwdinau wedi'u seilio ar ffrwythau o leiaf ddwywaith yr wythnos, Pysgod bob wythnos, Pysgod olewog o leiaf ddwywaith mewn 3 wythnos, Darnau cig o leiaf ddwywaith yr wythnos yn ein hysgolion cynradd a thair gwaith yr wythnos mewn ysgolion uwchradd, Dim halen wedi'i ychwanegu, Cael gwared ar yr holl felysion, fel bariau siocled, bariau grawnfwyd a melysion; a hefyd creision, Tatws cyfyngedig a chynhyrchion tatws wedi'u coginio mewn braster neu olew (dim mwy na dwywaith bob wythnos), Bwyd cyfyngedig wedi'i ffrio'n ddwfn neu wedi'i fflach-ffrio (dim mwy na dwywaith yr wythnos), Cynhyrchion cig wedi'u prosesu cyfyngedig, Siopau ffrwythau yn ein hysgolion cynradd, Llaeth am ddim i bob disgybl meithrin a babanod, Brecwast iach am ddim ym mwyafrif ein hysgolion cynradd, Hyrwyddo llaeth a dŵr fel y gorau ar gyfer iechyd deintyddol



Targed/Nod/Cam Gweithredu ar gyfer 2023/24

Mae nifer o flynyddoedd wedi mynd heibio ers i safonau maeth ysgolion Cymru gael eu diwygio. Rydym ni'n gwybod nad yw'r argymhellion ar gyfer siwgr (wedi'i ostwng) a ffibr (mwy) wedi'u hadlewyrchu eto yn y Rheoliadau. Byddwn yn edrych ar ffyrdd o leihau siwgr a chynyddu ffeibr ymhellach wrth i ni aros i'r Rheoliadau ddal i fyny â'r wyddoniaeth.

Cynydd/Cyflawniad hyd yn hyn yn 2023/24

Mawrth 2023 - Cafodd treial llwyddiannus o sudd ffrwythau llai o siwgr (1/3 yn llai o siwgr!) ei gymeradwyo yn Ysgol Gynradd Cwmffrwdor. Rydym ni bellach yn cynnal trafodaethau gyda'r gwneuthurwr a'r cyflenwr ynghylch cyflwyno hyn ar draws ein hysgolion mewn ymgais i wella cynnwys siwgr ein bwydlenni.



Arbedion wedi'u targedu o ran defnyddio ynni a llai o ddefnydd o ddŵr

Ein taith hyd yma

Byddai ymchwil yn dangos bod cludo prydau ysgol (lle nad oes gan ysgolion ddigon o le coginio) yn cael llai o effaith ar allyriadau carbon na gwastraff bwyd a dewisiadau bwydlenni cyfrifol. Wedi dweud hynny, gan fod pwyntiau gwefru trydan ym maes parcio'r brif swyddfa erbyn hyn, byddai hyn yn ein galluogi i ystyried newid ein fan drafnidiaeth o ddiesel i drydan a byddai hyn yn lleihau ein hallyriadau.

Nid oes gennym ni unrhyw wybodaeth ar gael yn rhwydd am effeithlonrwydd ynni a defnydd dŵr ein prif offer trydanol yng ngheginau ein hysgol.

Nid yw ryseitiau wedi'u hystyried eto ar gyfer gostyngiadau arbed ynni o fewn paramedrau coginio diogel.



Targed/Nod/Cam Gweithredu ar gyfer 2023/24

- 1) Byddwn yn ymchwilio i ffynonellau cyllid i ddisodli'r hen fan cludo diesel gyda fan drydan.
- 2) Byddwn yn ymgysylltu â'r Tîm Lleihau Carbon ac Ynni yn y cyngor i arolygu sgorau effeithlonrwydd dŵr ac ynni peiriannau golchi llestri a ffyrnau cyfun ar draws ein safleoedd a chymryd eu cyngor mewn perthynas â phenderfyniadau prynu yn y dyfodol a chynnal a chadw ataliol i sicrhau effeithlonrwydd.
- 3) Byddwn yn mynd ati i chwilio am newidiadau i'n patrymau/ryseitiau coginio i leihau amseroedd coginio diogel a gwneud arbedion yn ein defnydd o ynni.

Cynydd/Cyflawniad hyd yn hyn yn 2023

- 1) Mawrth 2023 - mae ein fan drydan wedi'i harchebu, ac rydym ni'n aros iddi gyrraedd!
- 2) Mawrth 2023 — Mae Tîm Ynni + Lleihau Carbon Torfaen yn cwrdd â ni ynglŷn â'r arolwg
- 3) Chwefror 2023 - Darn o dwrci wedi'i rewi yn cael ei ddefnyddio ar ddyddiau Mercher mewn ysgolion wedi'i gyfnewid i ddarn o dwrci ffres gan leihau amser coginio diogel (a'r defnydd o ynni) o awr fesul ysgol.



Lleihau Gwastraff Plât

Ein siwrnai hyd yn hyn

Mae yna adroddiadau'n dod yn ôl i reolwyr Arlwyo am lawer o wastraff bwyd yn cael ei greu mewn neuaddau cinio ysgolion. Heb fesur hyn a chymryd camau cysylltiol i fynd i'r afael â hyn, mae'n annhebygol o newid na gwella.

Mae'n destun pryder bod data gan ymchwilyr ym mhrosiect yr UE (Strength2Food European project, strength2food.eu) yn dangos bod 30% ar gyfartaledd o'r hyn sy'n cael ei weini i ddisgyblion fel prydiau ysgol yn mynd i'r bin fel gwastraff.

Targed/Nod/Camau ar gyfer 2023

Mae angen i ni dalu cymaint o sylw at yr hyn sy'n mynd i'r bin ag yr ydym i sicrhau gwerth maethlon yr hyn sydd ar y plât. Mae angen i ni fonitro gwastraff plât mewn ffordd weithgar, dangos gostyngiadau gwirioneddol yn hyn o beth ac ymchwilio i'r rhesymau y tu ôl i wastraff plât.

Mae gan nifer o'n hysgolion "Bwyllgorau Eco" neu rywbeth tebyg dan arweiniad disgyblion. Y gobaith yw cynnwys disgyblion wrth bwysu a monitro gwastraff plât yn y neuadd ginio, gan adrodd yn ôl i arlwywyr ynglŷn â beth yw'r prif gynhwysion sy'n cael eu rhoi yn y bin a pham (meysydd ar gyfer gwelliant? Meintiau dogneau? Ryseitiau?).



Cynnydd/Llwyddiant hyd yn hyn yn 2023

Mawrth 2023 –Mae prosiect "Waste Warriors" ar fynd. Derbyniwyd cais a wnaethom am arian i brynu 33 clorian parseli mawr i bwysu a monitro gwastraff bwyd. Mae ein hysgolion yn cofrestru i gymryd rhan mewn cystadleuaeth wedi ei harwain gan ddisgyblion i leihau gwastraff plât yn y neuaddau cinio, gyda chyfle i'r tîm buddugol ennill diwrnod llawn o wersi Coginio'n lach i 16 o ddisgyblion. Mwy i ddilyn.....



Gwaredu gwastraff bwyd

Ein taith hyd yma

Fel arlwywyr, mae angen i ni wneud penderfyniadau cyfrifol am sut rydym ni'n cael gwared ar bethau. Pan fydd bwyd yn mynd i safleoedd tirlenwi mae'n creu allyriadau carbon mawr sy'n ddrwg iawn i'r amgylchedd. O fis Tachwedd 2022 mae ein ceginau wedi bod yn casglu gwastraff bwyd mewn biniau arbennig. Caiff hwn ei gasglu a'i gludo i ffatri ailgylchu. Mae'n cael ei ailgylchu gan ddefnyddio proses o'r enw TREULIAD ANAEROBIG. Os hoffech chi gael trosolwg o'r broses, cliciwch ar y ddolen i fideo a ffilmiwyd yn y cyfleuster yn Swydd Hertford. Mae'r safle fwy neu lai yr un fath â safle De Cymru sy'n prosesu ein gwastraff bwyd ysgol, fel y mae'r broses. Severn Trent Green Power - OC Gogledd Llundain - YouTube



Targed/Nod/Cam Gweithredu ar gyfer 2023/24

Mae casglu gwastraff bwyd i'w ailgylchu yn rhan o brosiect peilot — mae angen i ni gyflwyno'r achos i gadw'r gwasanaeth hwn.

Cynydd/ Cyflawniad hyd yn hyn yn 2023/24

Edrychwch yn ôl yn ddiweddarach i weld a ydym yn llwyddo i gadw'r gwasanaeth hwn.



Mwy o opsiynau ar gyfer Ailgylchu

Ein taith hyd yma

Rydym ni wedi cael ein hysbrydoli'n fawr gan ein staff arlwyo yn Ysgol Panteg (gweler y llun) sydd wedi bod yn casglu'r plastig ymestynnol yng nghegin yr ysgol yno ac yn mynd ag ef gyda nhw i siopa yn eu harchfarchnad eu hunain i gael eu hailgylchu ynghyd â'u plastig ymestynnol o'u cartref. Gallwn wneud yn well yng ngheginau ein hysgol.

Mae ein cardbord wedi cael ei ailgylchu yng nghegin trafndiaeth Priffyrdd ers blynyddoedd bellach.

Mae ein gwastraff bwyd eisoes yn cael ei ailgylchu — gweler tab ar wahân

Targed/Nod/Cam Gweithredu ar gyfer 2023/24

Rydym ni wedi ymrwymo i gael y pwyntiau casglu plastig ymestynnol ar waith ac mae ein ceginau plastig ymestynnol yn bwydo i mewn i hyn.

Rydym ni hefyd yn chwilio am ffordd gyfrifol o gael gwared ar ffabrig (hen wisgoedd staff) yn ein timau Arlwyo a Glanhuau.

Byddwn yn parhau i chwilio am opsiynau eraill i gynyddu ailgylchu o'n ceginau, gan gynnwys ailgylchu cardbord ehangach.

Cynydd/Cyflawniad hyd yn hyn yn 2023/24

Mawrth 2023 — Mae cynlluniau wedi hen ddechrau ar gyfer gwasanaeth newydd a fydd yn casglu plastig ymestynnol yn uniongyrchol o geginau ein hysgol i'w ailgylchu, ynghyd ag annog plant ysgol i ddod â phlastig ymestynnol i'r ysgol o'u cartrefi i'w hailgylchu... cadwch llygad am hyn!

Mawrth 2023 — Mae gennym ni gynllun ailgylchu gwisg ysgol ar waith.



Lleihau cynhyrchion untro a pheccynnu

Ein taith hyd yma

Roeddem ni eisoes wedi dechrau nodi cynnyrch a pheccynnu untro yng ngheginau ein hysgol nad oedd eu hangen. Mae ein Hysgolion Cyfun wedi arwain yn y maes hwn — gydag Ysgol Gyfun Gwynllyw yn cynnig gostyngiad i'r rhai sy'n dod â'u cwpanau aml dro eu hunain. Ond yn ystod y pandemig roedd ofn trosglwyddo a gwelwyd disgyblion yn ddychwelyd i gynwysyddion untro am gyfnod.

Oeddech chi'n gwybod ein bod ni wedi bod yn mynd trwy 88,400 o sachau o saws coch yn flynyddol yn ein hysgolion? Mae hynny'n llawer o godenni plastig untro yn mynd i safleoedd tirlenwi!

Eleni (2023) bydd newid yn y ddeddfwriaeth (gwaharddiad ar blastigau untro) sy'n rhoi ffocws pellach yn y maes pwysig hwn i ni.

Targed/Nod/Cam Gweithredu ar gyfer 2023

Rydym ni wedi nodi 5 maes y byddwn ni'n eu targedu eleni

- 1) Bagiau bwyd plastig y mae ffrwythau yn cael eu gweini ynddynt (46,636 o fagiau yn flynyddol mewn 33 o ysgolion cynradd)
- 2) Llwyau hufen iâ plastig
- 3) Bwydlen dydd Gwener "blychau tecawê" (Nifer blynyddol a ddefnyddiwyd 22,500 am)
- 4) Codenni bach o saws coch (Nifer blynyddol 78,400 ar gost o £997.03)
- 5) Ffrwythau+Llysiau - archwilio cratiau i'w danfon heb unrhyw becynnu plastig



Cynydd/Cyflawniad hyd yn hyn yn 2023

Mawrth 2023 — cyngorwyd cogyddion na fydd modd archebu cyllyll a ffyrco untro mwyach. Rydym ni'n cwrdd ag arbenigwyr y cyngor i ddewis yr opsiwn eco gorau yn lle cynwysyddion tecawê plastig untro yn ein Hysgolion Cyfun. Mae amrywiaeth mor eang o ddewisiadau amgen ar gael, ac mae angen i ni wneud hyn yn iawn. Rydym ni wedi cychwyn gwaharddiad/bloc ar archebu codenni saws coch. Yn lle hynny byddwn yn defnyddio cynwysyddion y gellir eu hail-lenwi - gweler lluniau.

Lleihau Gwastraff Cegin

Ein taith hyd yma

Mae mesurau eisoes ar waith i geisio lleihau gwastraff cegin — ers blynyddoedd mae ein disgyblion cynradd wedi gorfod archebu eu dewis o bryd bwyd ymlaen llaw. Mae hyn yn osgoi'r cogydd yn dyfalu niferoedd ar gyfer pob dewis neu oramcangyfrif er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn cael ei ddewis cyntaf.

Er ein bod yn gweithredu cylchdro stoc llym fel rhan o'n gweithdrefnau diogelwch bwyd, weithiau rydym ni'n gweld na allwn ddefnyddio pecyn sydd wedi'i agor i gyd cyn y bydd yn rhaid ei waredu.

Targed/Nod/Cam Gweithredu ar gyfer 2023

Byddwn yn arolygu ein cogyddion i gael gwybod am fwydydd sy'n cyrraedd gyda deunydd pacio gormodol neu mewn meintiau cyfanwerthu sy'n rhy fawr, gan arwain at fwyd yn mynd i wastraff cyn y gellir ei ddefnyddio o fewn amserlenni diogel. Byddwn yn gweithio gyda'n cyflenwyr i amnewid bwyd/brandiau yn yr achosion hyn i sicrhau bod gwastraff yn cael ei leihau.



Cynydd/Cyflawniad hyd yn hyn yn 2023

Gwaith yn mynd rhagddo... gwiriwch yn ôl yn ddiweddarach am gynnydd...

Aiddosbarthu Gwarged Bwyd

Ein taith hyd yma

Rydym ni'n gweithredu cylchdro stoc llym fel rhan o'n gweithdrefnau diogelwch bwyd, ac nid ydym yn gorstocio ein ceginau. O bryd i'w gilydd bydd llaeth ysgol am ddim dros ben o'r bore ac mae ein cogyddion yn sicrhau bod hyn yn cael ei gynnig i ddisgyblion amser cinio yn hytrach na'i wastraffu.

Ar ddiwedd y tymor nid oes llawer o fwyd dros ben gan fod ein cogyddion yn cyfathrebu â'i gilydd i sicrhau bod unrhyw warged yng nghegin un ysgol yn cael ei gludo'n ddiogel ac mewn modd amserol i'w ddefnyddio mewn ysgol arall cyn i'r gegin gau am y gwyliau.

Ar ôl hyn, os oes unrhyw fwyd ar ôl ar ddiwedd y tymor, caiff hwn ei roi i'w ddefnyddio yng Nghynlluniau Chwarae Torfaen.

Targed/Nod/Cam Gweithredu ar gyfer 2023/24

Byddwn yn parhau i weithredu fel uchod ac yn sicrhau nad oes unrhyw beth yn mynd yn wastraff.

Cynydd/Cyflawniad hyd yn hyn yn 2023/24

Edrychwch yn ôl yn ddiweddarach i weld sut mae hyn yn dod yn ei flaen...



Mwy o fwyd Cymreig neu leol ar y fwydlen

Ein taith hyd yma


Bydd prynu mwy o fwyd yn lleol yn lleihau milltiroedd teithio'r bwyd - felly mae'n dda ar gyfer lleihau ôl-troed carbon y gwasanaeth a'r cyngor. Rydym ni wedi bod yn gweini bwydydd lleol ar ein bwydlenni ers peth amser, gan gynnwys Cheddar Cymreig a selsig Cymreig, er ein bod ni wedi bod ychydig yn swil wrth hyrwyddo hyn.

Targed/Nod/Cam Gweithredu ar gyfer 2023/24

Mae angen i ni weithio gyda phartneriaid mewnol ac allanol i nodi cyfleoedd i gynyddu faint o fwydydd Cymreig neu leol sydd ar ein bwydlen. Mae angen i ni dynnu sylw at gynnyrch Cymreig ar ein bwydlenni mewn ysgolion.

Cynydd/Cyflawniad hyd yn hyn yn 2023/24

Parhaus - Rydym yn ymgysylltu'n weithredol â Grŵp Partneriaeth Bwyd Torfaen. Nod y grŵp yw mapio a chynyddu cyfleoedd lleol i ddod o hyd i fwyd. Rydym yn mynd ar drywydd y cyfleoedd cyfyngedig sydd eisoes wedi'u mapio yn ardaloedd Torfaen ac yn ehangu ein chwiliad tuag allan. Ydych chi'n gyflenwr neu'n gynhyrchydd lleol fyddai efallai'n hoffi gweld eich bwyd/cynhwysion yn cael eu defnyddio ar fwydlenni ein hysgol? Siaradwch â ni'n uniongyrchol am y llwybrau i gyflenwi prydau ysgol.
E-bost tracy.james@torfaen.gov.uk



Staff Lleol yn Gwario'n Lleol

Awdurdod lleol yn darparu prydau wedi'u coginio ar lefel ysgol

Mae ein Gwasanaethau Arlwyio Ysgolion yn cyflogi tua 200 o staff lleol. Mae economegwyr yn cytuno, lle mae staff lleol yn cael eu cyflogi'n lleol, y gall hyn gael effaith enfawr ar p'un a yw arian yn aros yn lleol ac yn cefnogi'r ardal leol. Rydym ni'n credu'n gryf mai'r dull hwn o arlwyio mewn ysgolion sydd orau i ddisgyblion ac sydd orau i'r ecosystem fusnes leol.

Datblygwyd offer i olrhain cyllideb prydau ysgol o ran gwariant lleol ar gyflenwadau a staff, a dadansoddiad cyfatebol o faint o'r gyllideb honno sy'n aros yn yr ardal leol. Mae hwn yn faes cymharol newydd ac yn rhywbeth y byddwn ni'n ei ddilyn yn agos ac yn ei ystyried wrth symud ymlaen. Ond ar gyfer 2023/24 byddwn yn blaenoriaethu denu a chadw talent lleol i sicrhau ein bod ni'n gweini prydau bwyd o'r ansawdd gorau i'n disgyblion.



Blaenoriaethu Iechyd a Lles Staff

Ein taith hyd yma

Mae ein staff yn cael cyflog byw'r Sefydliad neu uwch.

Mae'r rhan fwyaf o fentrau iechyd a lles staff yn cael eu trefnu ar draws y cyngor ac yn cael eu hamlygu ar y fewnrwyd. Mae'r rhain yn cynnwys 238, ie 238 o gyrsiau ar-lein o ymwybyddiaeth alcohol i sgiliau cyfathrebu effeithiol i ddelio â pherthynas yn chwalu. Yn ogystal, mae ymgyrch menopos gweithredol gyda chaffi misol a gwasanaeth cwnsela sy'n hygyrch trwy lechyd Galwedigaethol. Mae gennym ni hefyd hanes o ddathlu llwyddiant ein timau ac arddangos lle mae aelodau ein tîm wedi mynd yr ail filltir. Bydd angen i staff wybod eu bod nhw'n cael eu gwerthfawrogi bob amser.

Mae'r llun yn dangos rhai o'n harlwywyr yn ennill gwobr arloesi genedlaethol am eu gwaith gyda disgyblion Awtistig.

Addewidion ar gyfer 2023/2024

O ran arolygu staff rydym ni wedi canfod bod trafferth parhaus gyda phoen cefn o ganlyniad i olchi pot mewn sinciau dwfn. Mae hwn yn bryder sy'n benodol i'n staff ni.

Byddwn yn mynd ati i geisio cael ffisiotherapi mynediad uniongyrchol i'n staff a hyrwyddo gostyngiadau staff mewn campfeydd lleol sydd ar gael i weithwyr Torfaen.

Byddwn yn parhau i gydnabod a dathlu gwaith rhagorol ein staff drwy ein tîm Cyfathrebu a'r byd Arlwygo ehangach.

Cynydd/Cyflawniad hyd yn hyn yn 2023

Ionawr 2023 - Cydnabuwyd gwaith Kirsty Milns, ein Rheolwr Prosiectau, Systemau a Data ar symleiddio'r broses o wneud cais am brydau ysgol am ddim — fe gyrhaeddodd rownd derfynol categori arlwygo APSE yng Ngwobrau Arloesi Rheoli Cyfleusterau Meddal 2023. Darn gwych o waith ac yn deilwng iawn o gyrraedd y rownd derfynol!

Mawrth 2023 — gydag oddeutu 200 o staff benywaidd, mae cyflenwadau glanweithiol ecogyfeillgar sydd ar gael drwy grant Llywodraeth Cymru wedi'u dosbarthu ymhlith ein staff mewn ymdrech i liniaru tldi misglwyf tra'n annog y defnydd o ddewisiadau amgen y gellir eu haildefnyddio/golchadwy.



Buddsoddi mewn Sgiliau a Chymwysterau Staff

Ein taith hyd yma

Rydym yn ymfalchïo mewn buddsoddi mewn sgiliau a chymwysterau ar gyfer staff — mae ein cogyddion wedi cymhwyso mewn Goruchwylio Diogelwch Bwyd lefel 3, a llawer ar Lefel 4. Mae ein cynorthwyrwr Arlwygo wedi'u hyfforddi mewn Diogelwch Bwyd Lefel 2. Mae gennym ni dros 60 aelod o staff yn meddu ar gymhwyster Lefel 3 mewn Rheoli Alergenau mewn Arlwygo. Ac yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae ein HOLL staff wedi derbyn hyfforddiant mewn Ymwybyddiaeth Awtistiaeth (gweler y llun). Ond nid ydym wedi mapio'r cyfleoedd hyfforddi hyn yn ffurfiol i allu chwilio amdanynt, a gofyn i'n staff ble mae'r bylchau yn eu barn nhw.



Targed/Nod/Cam Gweithredu ar gyfer 2023/24

Byddwn yn mapio cyfleoedd hyfforddi cyfredol fel y gallwn ni i gyd ddewis uwchsgilio a GOFYN I'N STAFF pa hyfforddiant/cymwysterau y bydden nhw'n elwa o fuddsoddi ynddyn nhw.

Cynydd/Cyflawniad hyd yn hyn yn 2023/24

Mawrth 2023 — Mae 6 aelod o Staff Arlwygo yn treialu NVQ Lefel 2 mewn Gwasanaethau Cegin ac mae cynlluniau i gyflwyno'r lefel 2+ a 3 i'r gweithlu ehangach os bydd hyn yn werth chweil.